RILY

Disney

# Eira Wen

## Cwestiynau i ysgogi sgwrs!

- Wnest ti fwynhau'r stori? Pam / pam lai?
- Pa ran o'r stori wnest ti ei mwynhau fwyaf?
- Oedd yna ran / rannau o'r stori na wnest ti eu mwynhau?
- Sut oedd y stori'n gwneud i ti deimlo?
- Alli di feddwl am dri ansoddair i ddisgrifio'r stori?
- Mae gan y saith ffrind enwau gwahanol sy'n dangos eu personoliaeth (pa fath o berson ydyn nhw). Pa un o'r criw sydd fwyaf tebyg i ti, wyt ti'n meddwl? Sut berson wyt ti?
- Meddylia am eiriau sy'n dy ddisgrifio di, a meddylia am enw sy'n cyfleu dy bersonoliaeth!
- Mae'r saith ffrind yn mynd allan i weithio bob dydd: yn cloddio a gweithio gyda'r tir. Am flynyddoedd maith mae pobl wedi defnyddio tir ac adnoddau naturiol eu hardal i'w helpu. Mae gan bron pob ardal ddiwydiant traddodiadol, e.e ffermio, pysgota, twristiaeth, gwaith glo, llechi, dur, copr, ac hyd yn oed aur! Gwna ymchwil i ddiwydiant dy ardal a dy gynefin di!

